# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 28/07/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29/07/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 05/08/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo: Cyng. Paul Rowlinson

**PWNC - Pryniant 48 Gorseddfa, Cricieth**

**PENDERFYNIAD**

I brynu 'r eiddo adnabyddir fel 48 Gorseddfa, Cricieth ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 28/07/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | Paul Rowlinson |

**Pwnc :**

Pryniant 48 Gorseddfa, Cricieth

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu ‘r eiddo adnabyddir fel 48 Gorseddfa, Cricieth ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i’w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r pryniant yn angenrheidiol i hwyluso darpariaeth llety gofal maeth addas ar gyfer blentyn ag anabledd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor (Mai 2015), mae angen cymeradwyaeth yr Aelod Cabinet dros Tai ac Eiddo i awdurdodi'r pryniant.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Agorwyd darpariaeth Hafan y Sêr yn gychwynnol er mwyn cynnig gofal dros dro i hyd at chwech o blant gydag anableddau. Mae un plentyn bellach yn Hafan y Sêr ers diwedd mis Medi, 2024, lle nad oes opsiwn addas tymor hir ar ei gyfer. Nid yw amgylchiadau teuluol yn galluogi cynllunio i’w ddychwelyd adref. Ni ellir cynllunio tymor hir chwaith o fewn darpariaeth Hafan y Sêr. Nid yw ei anghenion yn gweddu yn y tymor hir gyda lleoliadau arall yno, ac yn ogystal mae’r galw am wasanaeth yn yr uned yn uchel. Mae angen i’r Cyngor fod yn cynllunio i ddarparu ymdeimlad o gartref ar ei gyfer er mwyn cyfarfod a’i anghenion datblygiadol ac emosiynol yn yr hir dymor. Mae’r eiddo dan sylw yn mynd i alluogi hynny mewn adeilad sydd llawer iawn mwy tebyg i gartref teuluol tra’n cwrdd a’i anghenion cymhleth yr un pryd. Gellir hefyd ystyried lleoli plentyn arall gydag ef yn y dyfodol, gan ddibynnu ar cydweddu anghenion.

Bydd cyllid ar gyfer prynu’r tŷ’n cael ei ddarparu gan Y Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn dilyn ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol, cadarnhawyd nad oes angen cais newid defnydd. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu talu uwchlaw gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**


Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – **Dewi Morgan –** "Rwyf yn fodlon fod ffynhonnell ariannu ar gyfer y pryniant yma wedi cael ei adnabod, a nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro** – **Iwan Evans** – "Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

**Aelod/au Lleol –**

**Cynghorydd Sian Williams** – "Dim gwrthwynebiad."




# 48 Gorseddfa, Cricieth

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd